

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd ar  
Zoom  
Nos Fawrth, Mai 10, 2022 am 7:30yh o'r gloch.**

**Presennol:** Cyngorwyr: Simon Evans, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Doedd dim ymddiheuriadau. Roedd pawb yn bresennol.

**2. Datgan diddordeb:**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ebrill 12, 2022.**

Cynigwyd y cofnodion gan Llinos Williams ac eilwyd gan Simon Evans.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Ebrill 12, 2022**

Eitem 9.ch.3. Llythyr (26/4/2022) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith cynnal a thrwsio am gael ei wneud i Bont Hirgwm.

Eitem 9.b. Anfonwyd (28/4/2022) canlyniad o'r etholiad yn rhestru aelodau sydd ar y Cyngor Cymuned. Mae 4 aelod.

**5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (21/04/2022) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi gwybod bydd taliad misol i'r Clerc yn £104.08 ac i Thollau EM yn £26.00: £130.08 x 12 = £1,560.96. Cytunwyd y cyflog yn cyfarfod Mawrth 5, 2022, Eitem 5.11).

Penderfynwyd derbyn y taliadau.

b. Llythyr (27/4/2022) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept £3,750 yn ein cyfrif ar 27/4/2022 Taliad am hanner blwyddyn.

c. Balans yn y banc ar 29/4/2022: £12,024.63. (29/4/2021: £8,593.62).

**6. Archwilio**

a. Anfonwyd dogfennau'r cyngor i Archwilydd Mewnol, Cyngor Gwynedd ar 4/5/2022.

## **7. Mynwent Llanelltyd**

- a. Bil (25/4/2022) am £388.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd am gasglu gwastraff masnachol am y cyfnod 1/4/2022 – 31/3/2023.

Cytunwyd telerau'r gwasanaeth yn gofnodion Ebrill 12, 2022 eitem 7.a.

Penderfynwyd talu'r bil.

## **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

- a. Llythyr (26/4/2022) yn rhoi gwybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa Cartrefi Modur yn Eryri. Mae hyn yn dilyn cynnydd sylweddol yn y nifer o gartrefi modur sydd yn gwersylla dros nos mewn ardaloedd answyddogol, megis meysydd parcio a chilfannau dros y ddwy flynedd diwethaf,

Mae'r llythyr yn rhestru gweithrediadau mai'r Parc yn ei wneud, fel cydweithio gyda Cyngor Gwynedd, a rhannu gwybodaeth gydag arwyddion, taflenni, gwefan.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau

## **9. Gohebiaeth**

- a. Llythyr (13/4/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Ebrill a Mai, 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau

- b. Llythyr (13/4/2022) oddi wrth Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent wedi derbyn arian ar gyfer llochesi fws newydd a gosod Sgrin Gwybodaeth Bysiau ar lwybr bws y gwasanaeth Trawscymru T3 yn Llanelltyd. Bydd y gwaith yn cychwyn ar 4 Gorffennaf 2022 a'r lloches yn cael ei osod ar 7 Gorffennaf 2022.

Maent angen gwybod os rydym yn cytuno hefo'r cynllun. Bydd trefniadau cynnal a chadw ac yswiriant ar y lloches newydd yn disgyn arnom ni.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw.

Llythyr (26/4/2022) oddi wrth yr Uned yn rhoi gwybod lleoliad newydd y lloches fws, sef wrth Pont Wnyn, Llanelltyd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw.

Penderfynwyd cefnogi'r cynllun. (27/4/2022).

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MAI 10, 2022

Llythyr (14/4/2022) oddi wrth yr Uned yn rhoi gwybod bydd y lloches bresennol yn cael ei dynnu i lawr ac un newydd yn ei le. Bydd y sgrin gwybodaeth electronig dan gontract yr Uned gyda chwmni i'w gynnal a chadw.

c. Dau lythyr (24/4/2022) oddi wrth Peredur Jenkins yn cynnwys gwybodaeth derbyniodd Cynghorwyr Gwynedd oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â 'Sefydlu Timau Cymunedau Glan a Thaclus' fydd yn weithredol ar draws y Sir. Bydd y timau yn gwneud gwaith o docio gordyfiant, codi chwyn, glanhau arwyddion ffyrdd ac enwau strydoedd, golchi strydoedd a thynnu gwm, a golchi binniau.

Anfonwyd y ddau lythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw.

### **10. Adroddiad Cynghorvdd Gwynedd y Ward**

Mae Mrs Delyth Williams wedi cael ei hethol yn Gynghorydd Gwynedd y Ward yn yr etholiad cynhalwyd ar Mai 5, 2022.

### **11. Materion Brys**

a. Anfonodd (10/4/2022) Gethin Williams neges i Gwasanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod iddynt mae angen gamfa newydd ar lwybr cyhoeddus yn Hirgwm; mae'r un bresennol wedi torri.

b. Derbyniwyd (26/4/2022) cais (trwy John Hughes) oddi wrth Mrs Mary Jones, 31 Bro Cymer yn holi am drych ar gyffordd / cornel i wella diogelwch ffordd ar y stad o dai. Mae'r drych i weld traffic yn dod lawr y rhiw i'r ffordd fawr.

Anfonwyd y cais, gyda map yn dangos lleoliad y drych, ymlaen i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

Derbyniwyd llythyr ateb (4/5/2022) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod nid yw gosod drych yn y lleoliad rhoddwyd ddim yn cydymffurfio a'r rheolau sy'n berthnasol i osod drych ar y ffordd. I wella'r gyffordd maent am gynnal arolwg o'r llinellau gwyn i weld os ydi'n bosib eu hymestyn o amgylch y gornel.

c. Penderfynwyd anfon llythyr i Peredur Jenkins yn diolch iddo am ei wasanaeth pan oedd yn gynghorydd y Cyngor Cymuned (anfonwyd eitem i'r Llygad y Dydd), a cherdyn gwellhad wedi iddo gael llaw driniaeth.

ch. Penderfynwyd cynnal ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Llanelltyd.

-----